# Cynilion

Beth bynnag rydych chi'n cynilo ar ei gyfer, gallwn helpu






NatWest

Helpful Banking

# Croeso i NatWest

## Ydych chi eisiau dechrau cynilo?

Efallai'ch bod chi eisiau cynilo ar gyfer rhywbeth arbennig, neu at 'ddiwrnod glawog', neu i hel celc i'ch plant? Pa un ai ydych chi eisiau cynilo symiau bach yn rheolaidd neu fuddsoddi swm sylweddol, mae gennym ni ystod eang o ddewisiadau o ran cynilo sy'n addas at eich anghenion chi.

Mae'r tabl ar dudalennau 4 a 5 yn nodi buddion pob un o'n dewisiadau, i'ch helpu i benderfynu pa un sydd orau i chi. Ar ôl i chi benderfynu, mae'n hawdd gwneud cais. Y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw mynd i'ch cangen agosaf, mynd ar lein ar natwest.com/savings neu ein ffonio ni i gael mwy o wybodaeth.

# Dewis helaeth o opsiynau o ran cynilo

## Cael at eich arian unrhyw bryd

Cyfrifon hyblyg sy'n caniatáu i chi dynnu arian pryd bynnag mae arnoch ei angen


- First Reserve tudalen 6
- Reward Reserve tudalen 7
- First Home Saver tudalen 8
- Savings Direct tudalen 9
- e-Savings tudalen 10
- Advantage Reserve tudalen 11
- Advantage Private Reserve tudalen 12
- ISA Arian Parod (Cash ISA) tudalen 15


## Cynilion a buddsoddiadau tymor canolig a hirdymor

Cyfrifon a all roi enillion mwy i chi


- 30-Day Bonus Reserve tudalen 13
- ISA tudalen 15
- Bondiau Cynilo tudalen 17
- Buddsoddiadau tudalen 19
- Treasury Reserve tudalen 20


## Cyfrifon plant

Cynilion i rai dan 11 oed a rhai dan 16 oed


- Young Saver tudalen 14
- Bond Plant tudalen 17

# Dewis y cyfrif cynilion iawn i chi

| **Faint ydych chi eisiau'i gynilo?** | Pryd mae arnoch chi angen cael at eich cynilion? | Yna byddwch eisiau ystyried… | Bydd hyn yn rhoi i chi… | Mwy o wybodaeth ar dudalen… |
|---|---|---|---|---|
| £1 neu fwy | Unrhyw bryd | First Reserve | • Cerdyn Visa Debit dewisol | 6 |
| £1 neu fwy | Unrhyw bryd | Savings Direct | • Cyfrif dros y ffôn, trwy'r post a thros y rhyngrwyd | 9 |
| £1 neu fwy | Unrhyw bryd | e-Savings | • Cyfrif ar y rhyngrwyd | 10 |
| £1 neu fwy | Unrhyw bryd | Young Saver | • Cyfrif i rai dan 11 oed sy'n gwneud cynilo'n hwyl | 14 |
| £1–£5,100 | Unrhyw bryd | ISA Arian Parod | • Cynilion treth-effeithlon | 15 |
| £100 neu fwy | Unrhyw bryd | First Home Saver | • Cyfle i gynilo ar gyfer eich cartref cyntaf | 8 |
| £2,000 neu fwy | Unrhyw bryd | Reward Reserve | • Cewch ennill llog ychwanegol pan fyddwch chi'n cyfyngu ar y nifer o weithiau'r ydych chi'n tynnu arian o'r cyfrif | 7 |
| £2,000 neu fwy | Unrhyw bryd | Advantage Reserve | • Cyfraddau manteisiol i gwsmeriaid â chyfrifon Advantage Gold ac Advantage Private | 11 |

**I gael gwybod mwy**

natwest.com/savings

Gweler y dudalen gefn i gael gwybodaeth am rifau ffôn

Ewch i'ch cangen agosaf

Os oes gennych chi gynilion o £50,000 rydych chi'n gymwys i gael ein Gwasanaeth Bancio Preifat. Holwch amdano mewn cangen.

| **Faint ydych chi eisiau'i gynilo?** | Pryd mae arnoch chi angen cael at eich cynilion? | Yna byddwch eisiau ystyried… | Bydd hyn yn rhoi i chi… | Mwy o wybodaeth ar dudalen… |
|---|---|---|---|---|
| £10,000 neu fwy | Unrhyw bryd | Advantage Private Reserve | • Cyfraddau manteisiol i bobl â chyfrif Advantage Private sy'n cynilo | 12 |
| £2,000 neu fwy | Ar ôl 30 diwrnod o rybudd | 30-Day Bonus Reserve | • Y cyfle i ennill bonws | 13 |
| £1,000–£10,200 neu £50+ y mis | Ar ôl 5 mlynedd | ISA Stociau a Chyfrannau | • Buddsoddi mewn stociau a chyfrannau gyda'r potensial i gael twf treth-effeithlon | 16 |
| £500 neu fwy | Ar ôl blwyddyn | Bond Cymunedol | • Cyfradd warantedig ar eich arian, gyda rhan o'ch llog yn cael ei rhoi i brosiectau cymunedol | 18 |
| £5,000 neu fwy | Ar ôl blwyddyn | Bond 1, 2 neu 3 Blynedd | • Cyfraddau llog gwarantedig am gyfnod penodol | 17 |
| £1,000 | Ar ôl 5 mlynedd | Buddsoddiadau | • Y potensial i gael enillion uwch na chyfrif cynilo | 19 |
| £1,000 neu fwy | Ar ôl 5 mlynedd | Bond Plant | • Cyfradd warantedig i blant dan 16 oed | 17 |
| £25,000 neu fwy | Dros nos – blwyddyn | Treasury Reserve | • Buddsoddi'n uniongyrchol yn y farchnad arian | 20 |

nawr cewch ddarllen mwy am y cyfrif cynilo neu'r buddsoddiad a allai fod yn iawn i chi >

# First Reserve

## Gallwch ddechrau cynilo gyda £1 yn unig

Cyfrif cynilo hyblyg lle gallwch gael at eich arian unrhyw bryd yw NatWest First Reserve.

- **Gallwch gael at eich arian unrhyw bryd trwy ganghennau, peiriannau arian, y rhyngrwyd neu dros y ffôn**
- **Gallwch agor cyfrif gyda £1 yn unig**
- **Nid yw'n ofynnol cadw isafswm yn eich cyfrif**
- **Cerdyn Visa Debit dewisol**

Cyfrif cynilo gyda hwylustod cerdyn Visa Debit

# Reward Reserve

## Cyfrif arian unrhyw bryd, gyda manteision

Os ydych chi'n cadw £2,000 neu fwy yn eich cyfrif, dylech ystyried cyfrif Reward Reserve NatWest. Mae'r cyfrif hwn yn caniatáu i chi gael at eich arian unrhyw bryd, ac mae'n bosibl cael manteision chwarterol a blynyddol.

- **Y gallu i gael at eich arian unrhyw bryd trwy ganghennau, y rhyngrwyd neu dros y ffôn**
- **Gallwch gynilo unrhyw swm o £2,000 i fyny**
- **Manteision chwarterol os nad ydych yn tynnu arian mwy nag unwaith y chwarter ac os nad yw balans eich cyfrif yn mynd o dan £2,000 am fwy na 4 diwrnod i gyd**
- **Manteision blynyddol os nad ydych yn tynnu arian mwy na theirgwaith y flwyddyn ac os nad yw balans eich cyfrif yn mynd o dan £2,000 am fwy na 4 diwrnod i gyd**

Gallwch ennill llog ychwanegol pan fyddwch chi'n cyfyngu ar y nifer o weithiau'r ydych chi'n tynnu arian o'r cyfrif

### Ydych chi wedi ystyried…

Cerdyn credyd NatWest? Galwch heibio i gangen neu gofynnwch i gynghorydd cwsmeriaid heddiw i gael gwybod am ein trefniadau diweddaraf.

# First Home Saver

## Y cyfrif i'ch helpu i gynilo ar gyfer eich cartref cyntaf

Ydych chi'n chwilio am ffordd gall o gynilo blaendal ar eich cartref cyntaf?
Mae'n bosibl mai First Home Saver yw'r cyfrif i chi

- **Y gallu i gael at eich arian unrhyw bryd trwy ganghennau, y rhyngrwyd neu dros y ffôn**
- **Gallwch agor y cyfrif gyda £100**
- **Byddwch yn gymwys i gael bonws di-dreth o hyd at £5,000*. I gael manylion llawn, gofynnwch am ein llyfryn First Home Saver**
- **Mae angen creu archeb sefydlog fisol am £50 o leiaf**

*Nid yw'r bonws yn daladwy ond pan fo cwsmeriaid yn cymryd morgais gan NatWest – ar ôl cadw'r cyfrif am chwe mis o leiaf. Mae swm y bonws wedi'i seilio ar y balans cynilion isaf yn y 6 mis cyn i'r morgais gael ei dynnu i lawr. Mae uchafswm y bonws, sef £5,000, wedi'i seilio ar gynilion o £50,000.

# Savings Direct

## Cyfrif hyblyg

Mae cyfrif Savings Direct gan NatWest yn caniatáu i chi gael at eich arian dros y ffôn, trwy'r post neu dros y rhyngrwyd. Mae'n ddelfrydol os ydych chi eisiau cyfuno enillion uwch ar eich cynilion gyda hyblygrwydd bancio uniongyrchol.

- **Cyfradd llog sy'n cael ei thalu'n fisol**
- **Gallwch gael at eich arian yn uniongyrchol saith diwrnod yr wythnos**
- **Nid yw'n ofynnol cadw lleiafswm yn eich cyfrif**
- **Gallwch agor cyfrif gyda £1 yn unig**

Gallwch gynilo dros y ffôn, trwy'r post neu dros y rhyngrwyd

### Ydych chi wedi ystyried…

Agor cyfrif Advantage Gold NatWest?
Gallai roi arbedion i chi trwy'r flwyddyn gron – ar gynhyrchion bancio ac ar bethau'r ydych chi'n eu prynu at deithio, y cartref a hamdden. £12.95 y mis yw'r tanysgrifiad am y cyfrif Advantage Gold.

# e-Savings

## Cyfrif cynilion ar y rhyngrwyd y gallwch gael eich arian ohono unrhyw bryd

- **Gallwch gael at eich arian unrhyw bryd trwy'r rhyngrwyd**
- **Mae'n talu cyfradd llog uchel**
- **Gallwch gael at eich arian yn uniongyrchol 24/7**
- **Nid yw'n ofynnol cadw lleiafswm yn eich cyfrif**
- **Mae llog yn cael ei dalu'n fisol**

### Ydych chi wedi ystyried…

Agor e-ISA? Ein ISA ar y rhyngrwyd sy'n caniatáu i chi reoli'ch arian pryd bynnag mae'n gyfleus i chi, 24/7.

# Advantage Reserve

## Po fwyaf y byddwch yn cynilo, mwyaf y byddwch yn ei ennill

Os ydych chi'n gwsmer â chyfrif Advantage Private neu Advantage Gold gan NatWest, gallwch ennill cyfradd llog fanteisiol gyda chyfrif Advantage Reserve.

- **Cyfraddau llog manteisiol**
- **Gallwch gael at eich arian unrhyw bryd trwy ganghennau, peiriannau arian, y rhyngrwyd neu dros y ffôn**
- **Mae'n ofynnol cael isafswm balans o £2,000**
- **Mae'r llog yn cael ei dalu'n chwarterol**
- **Nid yw lleiafswm adnau nac alldyniad yn ofynnol**
- **Cerdyn Visa Debit dewisol**
- **£12.95 y mis yw'r tanysgrifiad am y cyfrif Advantage Gold.**

### Ydych chi wedi ystyried…

Agor cyfrif Advantage Private NatWest? Bydd yn rhoi i chi'r gallu i gael 25% o'r arian yn ôl ar docynnau theatr a chyngherddau, gwasanaeth *concierge*, yswiriant ar gyfer dyfeisiau neu fagiau llaw a llawer mwy. £19.95 y mis yw'r tanysgrifiad am y cyfrif Advantage Private. I fod yn gwsmer Bancio Preifat mae'n rhaid i chi gael eich gwahodd i ymuno neu fod ag incwm dros £75,000 (ar y cyd dros £100,000) neu gynilion dros £50,000. Gofynnwch am fanylion mewn cangen.

**I gael gwybod mwy** natwest.com/savings 0800 255 200 Ewch i'ch cangen agosaf

# Advantage Private Reserve

## Po fwyaf y byddwch yn cynilo, mwyaf o log y byddwch yn ei ennill

Os ydych chi'n gwsmer â chyfrif Advantage Private, cewch hefyd y gallu unigryw i gael at ein cyfrif Advantage Private Reserve sy'n cynnig:

- **Cyfraddau llog manteisiol**
- **Gallwch gynilo unrhyw swm o £10,000 i fyny**
- **Mae'r llog yn cael ei dalu'n fisol**
- **Gallwch gael at eich arian unrhyw bryd trwy ganghennau, y rhyngrwyd neu dros y ffôn**
- **Cewch log ychwanegol bob mis os nad ydych yn tynnu unrhyw arian ac yn cadw balans o £10,000 o leiaf**

Noder – ar gael i'r rheiny sydd ag incwm blynyddol unigol o £75,000 o leiaf neu incwm ar y cyd o £100,000 neu gynilion o £50,000 neu drwy wahoddiad. I fod yn gymwys ac i gadw'r cyfrif, rhaid i'ch cyflog (neu incwm cyfatebol) gael ei anfon i'ch cyfrif. £19.95 y mis yw'r tanysgrifiad am y cyfrif Advantage Private.

**I gael gwybod mwy** natwest.com/savings 0800 255 200 Ewch i'ch cangen agosaf

# 30-Day Bonus Reserve

## Enillion mwy ar eich cynilion

Cyfrif 30–Day Bonus Reserve gan NatWest yw'r cyfrif delfrydol os oes gennych £2,000 neu fwy i'w gynilo – ac os gallwch roi rhybudd 30 diwrnod ar gyfer y swm yr ydych eisiau ei dynnu

- **Cewch gyfraddau llog uwch po fwyaf y byddwch yn ei gynilo**
- **Gallwch gynilo unrhyw swm o £2,000 i fyny**
- **Cewch fonws blynyddol os na fyddwch yn tynnu arian mwy na 4 gwaith y flwyddyn**
- **Gallwch reoli'ch cyfrif mewn cangen, ar lein neu dros y ffôn**
- **Mae'r llog yn cael ei dalu'n flynyddol**
- **Codir ffi dorri os byddwch yn tynnu arian yn gynnar. Disgrifir Ffi Dorri fel llog 30 diwrnod, wedi'i seilio ar y 'swm wedi'i dynnu' ar y gyfradd llog oedd yn berthnasol i'r balans yn y cyfrif yn union cyn tynnu'r arian**

Y cyfle i ennill llog ychwanegol

### Ydych chi wedi ystyried...

Pensiwn Cyfranddeiliaid NatWest? Dyma ffordd dreth-effeithlon a hyblyg o gynilo at eich dyfodol. Bydd gwerth terfynol eich cronfa bensiwn yn dibynnu'n bennaf ar faint sydd wedi cael ei dalu i mewn a pha mor dda mae buddsoddiadau'r gronfa wedi gwneud. Gall gwerth buddsoddiadau, a'r incwm ohonynt, ostwng yn ogystal â chodi, ac mae'n bosibl na fyddwch yn cael y swm llawn y byddwch yn ei fuddsoddi yn ôl.

# Young Saver

## Dydi byth yn rhy gynnar i ddechrau cynilo

Cyfrif sydd wedi'i gynllunio'n arbennig i blant o dan 11 oed yw cyfrif Young Saver NatWest. Mae'n caniatáu iddyn nhw gael at eu harian unrhyw bryd ac yn eu hannog i gynilo trwy wneud cynilo'n hwyl.

- **Cyfradd llog sy'n cael ei thalu bob tri mis**
- **Y gallu i gael at eu cynilion unrhyw bryd trwy ganghennau neu dros y rhyngrwyd neu'r ffôn**
- **Siart lliwgar gyda sticeri sy'n helpu plant i weld sut mae eu harian yn tyfu**
- **Gyda'u llyfr talu i mewn eu hunain a chyfriflenni rheolaidd, byddan nhw'n dysgu'n fuan sut mae cyfrif banc yn gweithio**
- **Gall plant rhwng 7 a 10 oed gael eu cyfrif yn eu henw eu hunain**
- **Gallan nhw gynilo unrhyw swm o £1 i fyny**

### Ydych chi wedi ystyried...

Agor Cronfa Ymddiriedolaeth Plant NatWest? Bydd yn darparu swm o arian i blentyn sy'n annwyl i chi pan fydd yn 18 oed.

Gall gwerth eich buddsoddiadau, a'r incwm ohonynt, ostwng yn ogystal â chodi, ac mae'n bosibl na fyddwch yn cael swm gwreiddiol eich buddsoddiad yn ôl.

**I gael gwybod mwy** natwest.com/savings 0800 255 200 Ewch i'ch cangen agosaf

# ISAs

## Ffordd dreth-effeithlon o gynilo

Mae ISA (Cyfrif Cynilo Unigol) yn ffordd dreth-effeithlon o gynilo'ch arian. Gallwch ddewis cynilo swm rheolaidd bob mis, neu fuddsoddi un cyfandaliad ym mhob blwyddyn dreth.

- **Gallwch fuddsoddi hyd at £10,200 y flwyddyn mewn ISA**
- **Gallwch ddefnyddio'r lwfans hwn i ariannu ISA arian parod hyd at fwyafswm o £5,100**
- **Gellir buddsoddi gweddill y lwfans hwn mewn ISA stociau a chyfrannau**
- **Neu gallwch fuddsoddi'ch lwfans blynyddol llawn mewn ISA stociau a chyfrannau yn unig**

## ISA Arian Parod

**Gallwch ddechrau cynilo gyda £1 yn unig, a chynilo hyd at £5,100 bob blwyddyn dreth.**

**Gallwch ddewis ein ISA Arian Parod neu e-ISA.**

### ISA Arian Parod

- **Gallwch gael at eich arian unrhyw bryd mewn canghennau neu dros y rhyngrwyd neu'r ffôn**
- **Cyfraddau llog graddedig – po fwyaf y byddwch yn cynilo, mwyaf y byddwch yn ei ennill**

### e-ISA

- **ISA ar y rhyngrwyd sy'n caniatáu i chi reoli'ch arian pryd bynnag mae'n hwylus i chi, 24/7**

**Ni chewch danysgrifio i fwy nag un ISA arian parod ac un ISA stociau a chyfrannau yn yr un flwyddyn dreth**

Gweler tudalen 20 i gael Nodweddion Allweddol ISA arian parod

# ISAs parhad

## Ffordd dreth-effeithlon o gynilo

### ISA Stociau a Chyfrannau*

Gallwch fuddsoddi hyd at £10,200 mewn stociau a chyfrannau bob blwyddyn dreth.

Os oes gennych ISA arian parod eisoes yn y flwyddyn dreth bresennol, dim ond y gwahaniaeth rhwng eich tanysgrifiadau arian parod a'ch lwfans blynyddol y cewch ei fuddsoddi.

- **Gallwch naill ai ddewis o blith ein hystod o gronfeydd Multi-Manager Expert Managed Solutions neu ddewis beth i fuddsoddi ynddo eich hun gyda'n ISA Self-Select**

***Gall gwerth eich buddsoddiadau a'r incwm ohonynt ostwng yn ogystal â chodi ac mae'n bosibl na fyddwch yn cael swm gwreiddiol eich buddsoddiad yn ôl.**

# Bondiau Cynilo

## Cyfradd warantedig ar eich arian

Os ydych chi eisiau cynilo dros gyfnod hirach, mae Bondiau Cynilo NatWest yn ffordd ddiogel o gael cyfradd warantedig ar eich arian. Mae tri math o Fondiau Cynilo cyfradd sefydlog i ddewis o'u plith:

### Bond 1, 2 neu 3 Blynedd

- **Rhaid i chi gynilo o leiaf £5,000 am 1, 2 neu 3 blynedd**
- **Chi sy'n dewis pryd y cewch eich llog:**
  **– yn flynyddol gyda Bond 1 neu 2 Flynedd**
  **– naill ai'n fisol neu'n flynyddol gyda Bond 3 Blynedd**
- **Codir ffi ad-daliad cynnar os caewch y bond cyn diwedd y tymor penodedig**
- **Mae angen cyfrif gyda Banc NatWest i dalu'r llog**
- **Mae Bondiau Cyfradd Sefydlog yn talu llog misol neu log blynyddol, a bydd argaeledd y rhain yn amrywio yn ôl y dyroddiad penodol ac yn cael eu nodi yn y daflen wybodaeth am y dyroddiad hwnnw.**

### Bond Plant 5 Mlynedd (5 Year Children's Bond)

(i blant iau nag 16 oed)

- **Rhaid cynilo o leiaf £1,000 am 5 mlynedd**
- **Mae'ch llog yn cronni drwy gydol tymor y bond**
- **Mae angen i chi fod â chyfrif NatWest arall i'r llog gael ei dalu iddo**
- **Cewch dynnu'r holl arian yn eich bond cyn diwedd y tymor, ond os gwnewch hynny, bydd swm cyfwerth â llog gros 180 o ddyddiau (wedi'i seilio ar flwyddyn 365 o ddyddiau) yn cael ei ddidynnu o falans eich cyfrif pan fyddwn yn ei drosglwyddo i'ch cyfrif enwebedig**

# Bondiau Cynilo parhad

## Bond Cymunedol (Community Bond)

- **Rhaid cynilo o leiaf £500 am flwyddyn**
- **Mae'ch llog yn cronni drwy gydol tymor y bond**
- **Chi sy'n dewis faint o'ch llog a gaiff ei roi i brosiectau cymunedol lleol mewn unrhyw un o 11 rhanbarth ledled y Deyrnas Unedig**
- **Mae angen i chi fod â chyfrif NatWest arall i'r llog gael ei dalu iddo**
- **Cewch dynnu'r holl arian yn eich bond cyn diwedd y tymor, ond os gwnewch hynny, bydd y swm canlynol yn cael ei ddidynnu o falans eich cyfrif pan fyddwn yn ei drosglwyddo i'ch cyfrif enwebedig. (a) os mai blwyddyn yw'r tymor – swm cyfwerth â llog gros 60 o ddyddiau ar y gyfradd berthnasol (wedi'i seilio ar flwyddyn 365 o ddyddiau); neu (b) os mai tair blynedd yw'r tymor – swm cyfwerth â llog gros 120 o ddyddiau ar y gyfradd berthnasol (wedi'i seilio ar flwyddyn 365 o ddyddiau).**

# Buddsoddiadau

## Enillion posibl o fuddsoddi

Mae buddsoddi mewn stociau a chyfrannau, cronfeydd buddsoddi a bondiau buddsoddi yn cynnig i chi'r posibilrwydd o gael enillion uwch ar eich arian na phe baech wedi'i roi mewn cyfrif cynilo. Ond dylech fod yn ymwybodol y gall gwerth eich buddsoddiadau a'r incwm ohonynt ostwng yn ogystal â chodi ac mae'n bosibl na fyddwch yn cael swm gwreiddiol eich buddsoddiad yn ôl. Gall ein hystod o gynhyrchion gynnig pob un o'r canlynol neu gyfuniad ohonynt:

- **Gallwch ddewis buddsoddi naill ai cyfandaliadau neu gyfraniadau misol rheolaidd**
- **Cyfle i arbed treth ar eich buddsoddiadau**
- **Gall ein Rheolwyr Cynllunio Ariannol eich cynghori chi ar y dewisiadau a'r cyfleoedd sydd ar gael i chi**
- **Rhaid buddsoddi o leiaf £1,000**
- **Wedi'u cynllunio i ddarparu enillion o fuddsoddi sydd wedi'u cysylltu â pherfformiad y farchnad stoc heb berygl colli'ch cyfalaf**
- **Y gallu i fanteisio ar reolwyr cronfeydd a datrysiadau buddsoddi gyda'r gorau yn y byd trwy ein hystod o gronfeydd aml-reolwr**

Gallwch fuddsoddi er mwyn twf, incwm neu gyfuniad o'r ddau

# Treasury Reserve

## Buddsoddi ym Marchnad Arian Llundain

Gyda chyfrif Treasury Reserve gan NatWest, mae'r llog a gewch wedi'i gysylltu â pherfformiad Marchnad Arian Llundain.

- **Gallwch adneuo arian mewn cyfradd llog sefydlog am gyfnod o'ch dewis chi. Mae'n ofynnol adneuo lleiafswm.**

| Tymor | Lleiafswm mae'n ofynnol ei adneuo |
|---|---|
| Dros nos | £250,000 |
| 2–6 diwrnod | £250,000 |
| 7–27 diwrnod | £50,000 |
| 28 diwrnod neu fwy | £25,000 |

Cewch fanteisio ar gyfraddau Marchnad Arian tymor sefydlog

### Ydych chi wedi ystyried…

Cael gwasanaethau Private Banking NatWest? Dyma ddull personol newydd o reoli'ch materion ariannol sy'n rhoi i chi'r gorau oll o gynhyrchion, gwasanaethau a gwerth NatWest. Ar gael i'r rheiny sydd ag incwm blynyddol unigol o £75,000 o leiaf neu incwm ar y cyd o £100,000 neu gynilion o £50,000 neu drwy wahoddiad. Gofynnwch mewn cangen am fanylion.

# Nodweddion Allweddol – ISA Arian Parod

Cyfrif cynilo yw ISA ac mae'n sefyll am Individual Savings Account. Mae cynilo gydag ISA arian parod yn ffordd dda o arbed treth yn effeithlon.

**Sut mae'n gweithio**

- Gallwch reoli'ch cyfrif ISA Arian Parod mewn cangen neu dros y ffôn neu ar lein
- Mae ein cyfrif e-ISA yn caniatáu i chi agor a rheoli'ch cyfrif ar lein yn unig
- Mae'r cyfraddau'n newidiol lle gall y cyfraddau llog godi a gostwng
- Gallwch gael at eich arian unrhyw bryd heb gosb
- Mae'r llog yn cael ei dalu'n fisol

**Rheolau a Rheoliadau ISA**

- Y gostyngiadau yn y dreth y sonnir amdanyn nhw yw'r rhai sy'n berthnasol o dan ddeddfwriaeth bresennol, a all newid. Bydd argaeledd a gwerth unrhyw ostyngiad yn y dreth yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol chi
- Gallwch danysgrifio hyd at £5,100 mewn un ISA arian parod bob blwyddyn dreth
- I fod ag ISA arian parod rhaid i chi fod yn 16 oed neu'n hŷn. Rhaid i chi fod yn breswylydd yn y Deyrnas Unedig. Ni ddylech fod wedi tanysgrifio i unrhyw ISA arian parod arall yn yr un flwyddyn dreth. (Mae'r flwyddyn dreth yn rhedeg o 6 Ebrill yn y flwyddyn bresennol i 5 Ebrill yn y flwyddyn ganlynol.)
- Os ydych yn tynnu arian o'ch ISA arian parod, ni allwch ei ail-fuddsoddi yn yr un flwyddyn dreth os bydd cyfanswm eich adneuon yn fwy na'ch lwfans blynyddol
- Os ydych eisiau symud balans eich ISA arian parod rhwng darparwyr, mae yna broses drosglwyddo benodol, sy'n diogelu'r hyn mae gennych hawl iddo'n ddi-dreth*
- Gallwch roi rhagor o arian yn eich cyfrif ar yr amod nad yw'r cyfanswm a rowch i mewn yn fwy na'ch lwfans di-dreth

  Er enghraifft, dyweder eich bod yn agor ISA arian parod yn y flwyddyn dreth bresennol gydag adnau cychwynnol o £3,600. Oherwydd mai £5,100 fyddai'ch lwfans di-dreth* dim ond £1,500 arall y gallech ei dalu i mewn yn ystod y flwyddyn dreth bresennol, waeth faint o arian rydych yn ei dynnu o'r cyfrif.

*** Telir y llog yn ddi-dreth sy'n golygu ei fod yn rhydd o dreth incwm y Deyrnas Unedig.**

# Nodweddion Allweddol – ISA Arian Parod parhad

**Eich Cwynion**

Os ydych yn dymuno cwyno am unrhyw un o'n cynhyrchion neu wasanaethau, mae gennym weithdrefnau sydd wedi'u cynllunio i ddatrys eich cwyn yn effeithiol. Gallwn roi i chi daflen sy'n disgrifio'r gweithdrefnau hynny yn unrhyw un o'n canghennau neu gallwch ofyn dros y ffôn neu gallwch edrych ar ein gwefan sef **natwest.com**

**Trefniadau Iawndal**

Mae NatWest yn aelod o'r Cynllun Iawndal Gwasanaethau Ariannol (FSCS). Gall y Cynllun dalu iawndal i gwsmeriaid os ydynt yn gymwys ac os yw cwmni rheoleiddiedig yn methu â thalu hawliadau yn ei erbyn, fel arfer os yw'r cwmni'n stopio masnachu neu'n anhydal. Mae terfynau ar yr iawndal yn berthnasol, gan ddibynnu ar y math o hawliad.

Ar gyfer adneuon a ddelir mewn banc neu gymdeithas adeiladu yn y Deyrnas Unedig, bydd y Cynllun yn talu hyd at £50,000 neu €50,000, pa un bynnag sydd fwyaf, i bob unigolyn. Mae adneuon yn yr holl fathau o arian cyfred yn cael eu trin yr un peth.

Mae'r rhan fwyaf o gwsmeriaid manwerthu (mae hyn yn cynnwys unigolion preifat a rhai busnesau bach) yn gymwys o dan y Cynllun.

I gael mwy o wybodaeth am yr amodau sy'n rheoli iawndal a manylion am sut i wneud cais edrychwch ar y Cynllun ar **www.fscs.org.uk**

**Eich hawl i ddiddymu'ch cyfrif**

- Mae gennych gyfnod o 14 diwrnod i ddiddymu'ch cyfrif. I gael manylion gweler y daflen **Personal and Private Banking – Terms and Conditions**.
- I ddiddymu'ch cyfrif, rhaid i chi anfon hysbysiad ysgrifenedig i'r gangen lle cedwir eich cyfrif, neu (os oes gennych gyfrif nad yw mewn cangen) i'r cyfeiriad a nodir yn yr Amodau Penodol i'r Cyfrif a geir yn y daflen **Personal and Private Banking – Terms and Conditions**.
- Os ydych yn diddymu'ch cyfrif yn ystod y cyfnod diddymu 14 diwrnod, byddwn yn dychwelyd i chi'r holl arian yn eich cyfrif ac unrhyw log mae wedi'i ennill, ac ni fyddwn yn codi unrhyw daliadau ychwanegol.
- Os nad ydych yn diddymu'ch cyfrif yn ystod y cyfnod diddymu 14 diwrnod, byddwch yn rhwymedig gan amodau'ch contract gyda ni hyd nes i'ch cyfrif gael ei gau

# Beth mae angen i chi ei wneud nesaf

## 1 Penderfynu faint i’w gynilo

Ar ôl i chi benderfynu faint o arian yr ydych eisiau ei gynilo, dewiswch y math o gyfrif cynilo sy’n addas i chi

## 2 Cysylltu â ni heddiw

**natwest.com/savings**

**Cynilion**
**0800 255 200**
8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener, 9am–6pm dydd Sadwrn

**Minicom**
**0800 917 0526**

**ISA/Buddsoddiadau**
**0800 051 1868**
8am–8pm dydd Llun i ddydd Iau, 8am–6pm dydd Gwener, 9am–5pm dydd Sadwrn.

**Minicom**
**0800 169 0088**

**Ewch i’ch cangen NatWest agosaf**
Gall aelod o’r staff agor cyfrif cynilo i chi

## 3 Beth fydd ei angen arnoch


Bydd angen i chi ddarparu prawf o bwy ydych chi er mwyn agor cyfrif (gweler tudalen 25)

## 4 Beth sy’n digwydd nesaf

Os byddwn yn cytuno ar eich cais, caiff eich cyfrif ei agor a chewch gadarnhad o hyn cyn pen 10 diwrnod gwaith


# Mae mwy i NatWest…

## Gallwn hefyd eich helpu gyda

















**Prawf o bwy ydych chi**

IEr mwyn diogelu cwsmeriaid rhag peryglon twyll, ac atal gwyngalchu arian, rhaid i ni wirio hunaniaeth PAWB sy'n agor cyfrif cynilo. Os ydych chi'n gwsmer gyda ni eisoes, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch hunaniaeth a'ch cyfeiriad.

Dewch ag unrhyw UN o'r canlynol i'ch cangen leol.

- Pasbort cyfredol wedi'i lofnodi (nid os gofyniad i blentyn iau na 12 oed lofnodi pasbort)
- Cerdyn adnabod gan un o luoedd arfog y Deyrnas Unedig
- Trwydded yrru lawn y Deyrnas Unedig (os ydych chi'n hŷn na 17)
- Trwydded yrru cerdyn-llun dros dro gyfredol y Deyrnas Unedig (os ydych chi'n 20 oed neu'n iau)
- Cerdyn meddygol y GIG (os ydych chi'n 20 oed neu'n iau)
- Tystysgrif geni (os ydych chi'n 20 oed neu'n iau)
- Llyfr budd-dal

**Tystiolaeth o'ch cyfeiriad**

Dewch â fersiwn wreiddiol UN o'r canlynol hefyd.

- Bil nwy, trydan neu ffôn yr ydych wedi'i gael yn y chwe mis diwethaf. (Nid yw biliau ffonau symudol yn dderbyniol)
- Bil Treth y Cyngor sy'n llai na 12 mis oed
- Cyfriflen banc neu gymdeithas adeiladu o fewn y chwe mis diwethaf

Gall y rhain fod yn enw'ch rhieni os ydych chi'n iau na 18 oed ac os yw'r un cyfenw gennych ac os ydych yn byw yn yr un cyfeiriad.

# Gwybodaeth bwysig

Mae'n bosibl y caiff galwadau eu recordio. Mae'r manylion yn gywir ar adeg argraffu hwn.

Gall gwerth eich buddsoddiadau a'r incwm ohonynt ostwng yn ogystal â chodi ac mae'n bosibl na fyddwch yn cael swm gwreiddiol eich buddsoddiad yn ôl. Mae'r wybodaeth a roddir yn y llyfryn hwn wedi'i seilio ar y gyfraith oedd mewn grym ym mis Gorffennaf 2010. Cofiwch y gall lefelau trethi newid a bod gwerth unrhyw ostyngiad yn y dreth ac a oes gennych hawl iddo yn dibynnu ar eich amgylchiadau personol chi.

Os nad ydych chi'n fodlon ar unrhyw un o'n cynhyrchion neu wasanaethau, mae gennym weithdrefn gwyno y gallwch ei defnyddio. Gallwch gael taflen sy'n rhoi manylion y weithdrefn hon o unrhyw un o'n canghennau neu drwy ein ffonio. Mae National Westminster Bank Plc yn aelod o Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol. Os ydych yn anfodlon o hyd ar ôl dilyn ein gweithdrefn gwyno, gallwch ofyn i'r Ombwdsmon adolygu'r gŵyn. Cewch fwy o wybodaeth am Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol mewn taflen y gallwch ei chael o unrhyw gangen neu drwy ein ffonio. Neu gallwch ysgrifennu at: Financial Ombudsman Service, South Quay Plaza, 183 Marsh Wall, Llundain E14 9SR. Ffôn 0845 080 1800.

Mae'n bosibl na fydd rhywfaint o'r wybodaeth yn y llyfryn hwn yn berthnasol i Ynys Manaw, Ynysoedd y Sianel neu Gibraltar. Weithiau mae'n rhaid i ni ddiweddaru ein systemau felly mae'n bosibl na fydd ein gwasanaethau bancio dros y ffôn ac ar lein 24 awr y dydd ar gael am gyfnodau byr yn oriau mân y bore.

Ni chewch danysgrifio i fwy nag un ISA Arian Parod ac un ISA Stociau a Chyfrannau yn yr un flwyddyn dreth.

# Blwch Crynodeb – Gwybodaeth allweddol ar gyfer ein Cyfrifon Cynilo

| Enw'r Cyfrif | First Reserve | Advantage Reserve | Young Saver | ISA Arian Parod | Reward Reserve | 30 Day Bonus Reserve | Advantage Private Reserve | First Home Saver | Savings Direct | e-Savings | e-ISA |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfradd Llog (AER)** | Trowch at y wybodaeth am gyfraddau yn ein taflen Savings Accounts Rates (NWB3744) | | | | | | | | | | |
| **Statws Treth** | Mae'r llog yn cael ei dalu ar ôl didynnu 20% o dreth | | Mae'r llog yn cael ei dalu'n ddi-dreth os caiff ffurflen R85 ei llenwi | Di-dreth | Mae'r llog yn cael ei dalu ar ôl didynnu 20% o dreth | | | Mae'r llog yn cael ei dalu ar ôl didynnu 20% o dreth. Mae'r bonws yn ddi-dreth | | | Di-dreth |
| **Amodau ar gyfer talu bonysau** | Gellir gweld yr amodau ar gyfer unrhyw daliadau bonws ychwanegol yn y daflen Savings Accounts Rates NWB3744. | | | | Mae taliadau chwarterol yn daladwy ar yr amod nad yw balans y cyfrif yn mynd yn is na £2,000 am fwy na 4 diwrnod ym mhob chwarter ac na thynnir arian mwy nag unwaith mewn unrhyw chwarter. Mae taliadau blynyddol yn daladwy ar yr amod nad yw balans y cyfrif yn mynd yn is na £2,000 am fwy na 4 diwrnod ym mhob cyfnod blynyddol ac na thynnir arian mwy na 3 gwaith mewn unrhyw flwyddyn. Gellir gweld yr amodau ar gyfer unrhyw daliadau bonws ychwanegol yn y daflen Savings Accounts Rates NWB3744. | Mae bonws o 0.5% gros y flwyddyn yn daladwy bob blwyddyn pan nad yw arian wedi cael ei dynnu mwy na 4 gwaith y flwyddyn. Gellir gweld yr amodau ar gyfer unrhyw daliadau bonws ychwanegol yn y daflen Savings AccountsRates NWB3744. | Mae bonws misol yn daladwy pan na thynnir unrhyw arian yn y mis hwnnw. Gellir gweld yr amodau ar gyfer unrhyw daliadau bonws ychwanegol yn y daflen Savings Accounts Rates NWB3744. | Os sefydlir archeb sefydlog am o leiaf £50 bob mis am 6 mis. Os ydych chi'n gymwys i gael morgais gan NatWest ac yn ei gymryd. Cewch hawlio bonws cyn pen 3 mis ar ôl cymryd y morgais. Gellir gweld yr amodau ar gyfer unrhyw daliadau bonws ychwanegol yn y daflen Savings Accounts Rates NWB3744. | Gellir gweld yr amodau ar gyfer unrhyw daliadau bonws perthnasol yn y daflen Savings Accounts Rates NWB3744 | | |
| **Trefniadau tynnu arian** | Cael at eich arian unrhyw bryd | | | | Cael at eich arian unrhyw bryd. Tynnu arian unwaith bob chwarter | 30 diwrnod o rybudd yn ofynnol i dynnu arian | Cael at eich arian unrhyw bryd | Cael at eich arian unrhyw bryd | Cael at eich arian unrhyw bryd | | |
| **Cael at eich arian** | Canghennau, ffôn neu'r rhyngrwyd | | | | | | | Canghennau yn unig | Y rhyngrwyd, ffôn neu'r post | Y rhyngrwyd yn unig | |

| Enw'r Cyfrif | Bond 1, 2 neu 3 Blynedd NatWest | Bond Plant NatWest | Bond Cymunedol NatWest |
|---|---|---|---|
| **Cyfradd Llog (AER)** | Mae cyfraddau llog Bondiau Cyfradd Sefydlog yn amrywio o fis i fis. Trowch at yr adran am Fondiau Cyfradd Sefydlog yn yr adrannau am gynilion tymor canolig ar natwest.com i gael y cyfraddau cyfredol, a hefyd at y daflen wybodaeth am y dyroddiad bond sydd ar gael o'ch cangen | Mae cyfraddau llog Bondiau Cyfradd Sefydlog yn amrywio o fis i fis. Trowch at yr adran am Fond Plant 5 Mlynedd (5 Year Children's Bond) yn yr adrannau am gynilion plant ar natwest.com i gael y cyfraddau cyfredol | Mae cyfraddau llog Bondiau Cyfradd Sefydlog yn amrywio o fis i fis. Trowch at yr adran am y Bond Cymunedol (Community Bond) yn yr adrannau am gynilion tymor canolig ar natwest.com i gael y cyfraddau cyfredol |
| **Statws Treth** | Bydd y llog a enillir ar falansau sy'n llai na £50,000 yn cael ei dalu yn ddarostyngedig i'ch statws treth. Bydd y llog a enillir ar falansau sy'n £50,000 neu fwy'n cael ei dalu heb ddidynnu treth | | |
| **Amodau ar gyfer talu bonysau** | Amherthnasol | | |
| **Trefniadau tynnu arian** | Ni chaniateir tynnu rhan o'r arian. Ni chewch gau'ch bond cyn y dyddiad a nodir yn y daflen wybodaeth am y dyroddiad bond hwnnw. Os caewch eich bond cyn y dyddiad a nodir byddwn yn codi ffi ad-daliad cynnar arnoch fel y nodir yn y daflen wybodaeth honno | Ni chaniateir tynnu rhan o'r arian. Os tynnwch yr holl arian yn eich bond cyn diwedd y tymor, byddwn yn codi ffi ad-daliad cynnar arnoch cyfwerth â llog gros 180 o ddyddiau | Ni chaniateir tynnu rhan o'r arian. Os tynnwch yr holl arian yn eich bond cyn diwedd y tymor, byddwn yn codi ffi ad-daliad cynnar arnoch cyfwerth â llog gros 60 o ddyddiau |
| **Cael at eich arian** | Cangen | | |

# Mae'n hawdd gwneud cais

## natwest.com/savings

**Cynilion**

**0800 255 200**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Gwener,
9am–6pm dydd Sadwrn.

**ISA/Buddsoddiadau**

**0800 051 1868**

8am–8pm dydd Llun i ddydd Iau,
8am–6pm dydd Gwener,
9am–5pm dydd Sadwrn.

**Minicom**

**0800 917 0526**

**Minicom**

**0800 169 0088**

## Ewch i'ch cangen NatWest agosaf

National Westminster Bank Plc, 135 Bishopsgate, Llundain EC2M 3UR. Rhif Cofrestredig: 929027, Lloegr.
NWB4429 27 Awst 2010